| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **24 IONAWR 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYLLIDEB 2018/19** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYLLIDEB AMLINELLOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **MABWYSIADU'R GYLLIDEB AR GYFER 2018/19** |

**1. Crynodeb**

**1.1** Mae'n rhaid wrth yr adroddiad hwn i gadarnhau dyraniadau cyllido ar gyfer 2018/19.

**1.2** Yn 2017/18 Cyllideb yr Ymddiredolaeth oedd:-

**O'r Gronfa Gyffredinol**

- Oriel Ynys Môn £215k;
- Neuaddau Pentref £80k;
- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bach £125k;
- Costau Gweinyddol y Cyngor £30k;
- Menter Môn £110k;
- Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn £40k;
- Urdd £40k; a
- Ffermwyr Ifanc Ynys Môn £30k.

**Cyfanswm £670k**

**O'r Gronfa Cyfalaf**

- Canolfan Ucheldre £30k;
- Meddwl Ynys Mon a Gwynedd £20k;
- Rheilffordd Ganolog Môn Cyf. £25k;
- Canolfan Hamdden Biwmaris £45k;
- Cwmni Tref Llangefni £25k;
- Cyngor Cymuned Llanfair M E £10k;
- Clwb Bocsio Caergybi £20k;
- Cadetiaid Môr Caergybi £20k;
- Cyngor Tref Caergybi £50k;
- Neuadd Pentef Llanddona £45k;
- Medwrn Mon £25k; a
- Cymunedau'n Gyntaf Môn £35k.

**Cyfanswm £350k**

**2. Gwerth Portffolio ac Incwm Buddsoddi Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn 2018/19**

- Gwerth presennol y Portffolio ar 30 Tachwedd 2017 yw £22,909,352;
- Rhagolygon diweddaraf yr Incwm Buddsoddi ar gyfer 2018/19 yw £680,000;

- Rhagolygon Ffioedd Rheoli ar gyfer 2018/19 sydd yn seiliedig ar raddfa sefydlog o 0.4% o werth y portffolio yw £94,000; a
- Roedd diffyg o £82,854 yn yr Arian Wrth Gefn wedi eu cario ymlaen o 2016/17. Gweler y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol or Adroddiad Blynyddol 2016/17.

## 3. Symudiadau yn Arian Wrth Gefn yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

| | 2017/18 £000 | 2018/19 £000 |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi | 680 | 680 |
| Llai ffioedd rheoli buddsoddi | (60) | (94) |
| Ar gael i wario | 620 | 586 |

**Gwariant**

| | | |
|---|---|---|
| Gwariant Grant (para4) | 640 | 530 |
| Cyfanswm Gwariant | 640 | 530 |

**Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn**

| | | |
|---|---|---|
| Arian Dros Ben / (Diffyg) wedi ei gario ymlaen | (83) | (103) |
| I/(O) Arian Wrth Gefn | (20) | 56 |
| Arian dros ben / (Diffyg) a Ragolygwyd ar ddiwedd y flwyddyn | (103) | (47) |

## 4. Cynnig Cyllideb 2018/19 yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

| Math o Grant | Cyllideb o'r Gronfa Gyffredinol £'000 | Cyllideb o'r Gronfa Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| Oriel Ynys Môn | 215 | |
| Neuaddau Pentref | 80 | |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan | 125 | |
| Grantiau Mawr | | 350 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir:- | | |
| Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | 30 | |
| Urdd Gobaith Cymru | 40 | |
| Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn | 40 | |
| | 530 | 350 |

Bwriedir cadw cyllideb y Neuaddau Pentref yn £80k fel y dyfarnwyd yn 2017/18. Ond, yn ddiweddar, mae'r swm a wariwyd gan y Neuaddau Pentref wedi bod yn llai na £80k (£67k yn 2015/16, £64k yn 2016/17 a £64k i fyny i Chwarter 3 yn 2017/18). Mae yna le i leihau y gyllideb i adlewyrchu y derbyniadau diweddar.

Bwriedir cadw cyllideb i Gyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychain yn £125k fel y dyfarnwyd yn 2017/18. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r swm a wariwyd am y Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychain wedi bod yn llai na £125k (£103k yn 2015/16, £86k yn 2016/17 a £59k yn 2017/18). Mae yna le i leihau y gyllideb i adlewyrchu y derbyniadau diweddar.

O ganlyniad i'r cynnig cyllideb yma, bydd diffyg o £103k yn cael ei cario ymlaen i 2018/19. Fodd bynnag, bydd rhan fwyaf o'r diffyg yma yn cael ei dynnu allan pan ddaw gweddill yr Ymrwymiadau Tymor Hir o £110k i ben yn 2018/19.

5. **Y Cylch Cyllido 2018/19**

Cynigir cyhoeddi hysbysebion am grantiau blynyddol bychan i'w dyfarnu gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yng nghanol mis Mawrth 2018, gyda dyddiad cau o Dydd Gwener 11 Mai 2018 ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Gweler Rhan 7(a) ar gyfer y gyllideb a argymhellir.

6. **Grantiau Mawr 2018/19**

Yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2017, penderfynodd y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau fod dyraniad o £350k yn cael ei wneud ar gael at gyllido grantiau mawr yn 2018/19.

7. **Argymhellion**

**(a)** Mabwysiadu'r gyllideb am 2017/18 fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Oriel Ynys Môn | £215k |
| Neuaddau Pentref | £ 80k |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan | £125k |
| Grantiau Mawr o Gronfa Cyfalaf (gweler rhan 6 uchod) | £350k |
| Ymrwymiadau Tymor Hir parhaus (wedi eu torri lawr yn nhabl 4) | £110k |

**(b)** Dirprwyo swm o £125k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddelio gyda cheisiadau ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD –**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **11 IONAWR 2018**